# BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYD-BWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (DIOGELU)**

**PWNC:** **CYD-BWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (DIOGELU) - DYDD LLUN, 2 RHAGFYR 2019 DYDD LLUN, 2 RHAGFYR 2019**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL:

Cynghorwyr: M. Cook
G. A. Davies
P. Edwards
L. Elias
K. Hayden
W. Hodgins
J. Holt
J. Millard
J. C. Morgan
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Summers
H. Trollope

A: Damien McCann (Swyddog)
Tanya Evans (Swyddog)
Lynn Phillips (Swyddog)
Gavin Metheringham (Swyddog)
Michelle Jones (Swyddog)
Sarah Dixon (Swyddog)
Sarah Jones (Swyddog)
Liz Thomas (Swyddog)

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau.. | |
| **No. 3** | **<u>CYD-BWYLLGOR CRAFFU ADDYSG & DYSGU A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (DIOGELU)</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Cydbwyllgor Craffu Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2019.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r Cofnodion. | |
| **No. 4** | **<u>DALEN WEITHREDU - 15 GORFFENNAF 2019</u>**<br><br>Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Cydbwyllgor Craffu Addysg & Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (Diogelu) a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2019, yn cynnwys:<br><br>**<u>Eitem 6 - Gwybodaeth Perfformiad Diogelu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg</u>**<br><br>Awgrymodd Aelod y dylid cynnwys graffiau gyda'r data er mwyn dangos yr wybodaeth yn ymwneud â throsglwyddo o fewn y flwyddyn.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg nad oedd unrhyw wybodaeth fanwl ar gael ar ddisgyblion o'r tu allan i'r sir, er bod yr Awdurdod wedi ceisio cael yr wybodaeth hon gan ysgolion ac awdurdodau lleol eraill.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 5** | **DALEN BENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i Ddalen Benderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi Dalen Benderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol. | |
| **No. 6** | **GWYBODAETH PERFFORMIAD DIOGELU AR GYFER GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AC ADDYSG - 1 EBRILL I 30 MEHEFIN 2019**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant a Rheolwr Strategol Gwella Addysg, a gyflwynwyd i roi gwybodaeth ar berfformiad diogelu gyda ffocws ar ddadansoddiad o Wasanaethau Cymdeithasol Plant ac Addysg o 1 Ebrill i 30 Mehefin 2019.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>**Effaith ar y Gyllideb**<br><br>Yng nghyswllt ceisiadau llys a chostau cyfreithiol, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod nifer y ceisiadau llys yn sefydlog a bod y Tîm Diogelu yn awr yn gweithio ar gapasiti llawn a bod y ddau wedi cael effaith gadarnhaol ar y gyllideb, er fod weithiau angen comisiynu ymgynghorydd allanol ar gyfer ymddangosiadau llys. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y cynhaliwyd profion o'r farchnad a bod gwaith yn mynd rhagddo i weld os gallai awdurdodau lleol eraill ddarparu'r gwasanaeth i Flaenau Gwent.<br><br>Gofynnodd i Aelod am gynnwys y graffiau yn ymyl y geiriad perthnasol er mwyn eglurdeb yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddid yn edrych ar fformat yr adroddiad ar gyfer dibenion eglurdeb.<br><br>**Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>Gofynnodd Aelod os mai'r heddlu yw'r ffynhonnell fwyaf o atgyfeiriadau. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y rôl Ditectif Ringyll yn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol i'r broses ddiogelu. Nid yw | |

atgyfeiriadau gan yr heddlu wedi gostwng ond mae safon yr wybodaeth a gafwyd wedi gwella sydd wedi arwain at wneud penderfyniadau gwell drwy wasanaethau ataliol tebyg i'r rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd. Holodd yr Aelod hefyd am atgyfeiriadau gan yr Ymddiriedolaeth Hamdden. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth fod yr holl staff wedi eu hyfforddi mewn Lefel 1 Diogelu i adnabod arwyddion camdriniaeth ac y gall rhai atgyfeiriadau gan yr heddlu fod wedi deillio oddi wrth staff yr Ymddiriedolaeth Hamdden. Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg fod gan yr Ymddiriedolaeth Hamdden swyddogion arweiniol ar gyer diogelu ond y gall atgyfeiriadau fod yn isel gan fod y rhan fwyaf o ddarpariaeth hamdden yn fynediad agored a rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod trefniadau cadarn ar waith.

**Categorïau cam-driniaeth**

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am brif gategori cam-driniaeth, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth mai esgeulustod yw'r prif gategori; hwn oedd uchaf oherwydd rhesymau megis rhianta, y cartref neu fregusrwydd oherwydd tlodi a diffyg arian. Cam-drin emosiynol yw'r ail uchaf, byddai cam-driniaeth iechyd meddwl yn cyflwyno fel cam-driniaeth emosiynol felly byddai'r categori eilaidd yn mynd law yn llaw. Defnyddir mesurau ataliol heriol drwy weithio partneriaeth, addysg a hysbysu rhieni am effaith camdriniaeth emosiynol y plentyn.

Tynnodd Aelod sylw am gamgymeriad ar dudalen 37, Ffigur 2.4 Dadansoddiad o blant ar y gofrestr diogelu plant, dylai'r wybodaeth a elwir yn Anhysbys ddarllen Gwryw.

Gadawodd y Cynghorwyr Martin Cook a Wayne Hodgins y cyfarfod ar y pwynt hwn.

**Gwybodaeth am Addysg**

Cyflwynodd y Rheolwr Diogelu mewn Addysg y wybodaeth am Addysg.

Holodd Aelod am y nifer uchel o ymyriadau corfforol cyfyngol yn ystod tymor yr Hydref. Esboniodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg mai tymor yr Hydref yw'r tymor hiraf fel arfer, fodd bynnag mae'r tueddiad yn gyson gydag adroddiadau blaenorol. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn edrych ar dueddiadau a byddai'n rhoi sylwadau i gefnogi'r data a gyflwynir o fewn adroddiadau yn y dyfodol.

Dywedodd Aelod fod angen i Aelodau fod yn hyderus fod y nifer o ddigwyddiadau ymyriad corfforol yn cael eu gostwng a'i bod yn bwysig y cyflwynir data perfformiad mewn modd amserol i Aelodau ystyried yr wybodaeth ddiweddaraf.

Rhoddodd y Rheolwr Diogelu mewn Addysg sicrwydd i Aelodau y gallent fod yn hyderus fod y data perfformiad yn gywir a bod gwaith yn mynd rhagddo i geisio gostwng ymyriadau corfforol cyfyngol.

Yng nghyswllt disgyblion addysg ddewisol yn y cartref (EHE), dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg y cynhaliwyd trafodaethau hirfaith yn y Pwyllgor Craffu a bod y Cyngor yn gweithio yn unol â gofynion Llywodaeth Cymru.

Yng nghyswllt Operation Encompass, gofynnodd Aelodau os gweithredir ar atgyfeiriadau a drosglwyddir i ysgolion. Dywedodd y Rheolwr Diogelu mewn Addysg fod Operation Encompass yn galluogi ysgolion i wybod fod digwyddiad wedi bod ac ymateb mewn modd priodol i sefyllfa'r disgybl. Bu'r adborth gan athrawon yn gadarnhaol, maent wedi cael yr wybodaeth yn ddefnyddiol wrth gynyddu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o amgylchiadau disgyblion.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am dueddiadau ar gyfer mis Medi 2018 i fis Medi 2019 ar gyfer disgyblion EHE, dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg y byddai'r Gwasanaeth Addysg yn gwybod am resymau rhieni dros ddewis EHE gyda llawer o rieni'n penderfynu ar y dull hwn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Dechreuodd chwech disgybl oedran uwchradd dderbyn EHE ym mis Ebrill i fis Gorffennaf 2019, byddai'r Gwasanaeth Llesiant Addysg wedi adolygu'r rhesymau pam y cafodd y disgyblion eu symud o ysgol.

Gofynnodd Aelod faint o ddisgyblion oedd yn derbyn EHE fel ym mis Rhagfyr 2019. Gan fod y ffigur yn newid yn gyson, dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg y byddai'n anfon yr wybodaeth at Aelodau yn unongyrchol.

Dywedodd Aelod y cynhelir ymweliadau cartref ar gyfer disgyblion sy'n derbyn EHE unwaith y flwyddyn ar hyn o bryd a holodd pa gynnydd a wnaeth y Gyfarwyddiaeth ar y mater hwn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod rheoliadau cyfredol

| | | |
|---|---|---|
| | Llywodraeth Cymru yn dweud y dylid cynnal ymweliadau unwaith y flwyddyn. Anfonwyd llythyr at Lywodraeth Cymru gan yr holl Gyfarwyddwyr Addysg a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol rhanbarthol yng nghyswllt diogelu disgyblion ar gyfer disgyblion sy'n derbyn EHE a bu ymgynghoriad ar y cynnig newydd, gobeithiau y byddai nifer ymweliadau cartref yn newid yn y dyfodol ac y byddai'n mynd â sylwadau Aelodau ymlaen. Nodwyd y byddai gweithwyr cymdiethasol yn cynnal ymweliadau os oedd pryderon am ddiogelu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y dull gweithredu a'r adroddiad a fanylir yn yr adroddiad. | |
| **No. 7** | **ADRODDIAD DIOGELU OEDOLION - 1 EBRILL I 30 MEHEFIN 2019**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a gyflwynwyd i roi gwybodaeth i Aelodau ar berfformiad diogelu yng nghyswllt Gwasanaethau Oedolion rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2019.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Chomisiynu am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF), dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y sicrhawyd cyllid hyd at fis Mawrth 2021 a bod trafodaethau'n mynd rhagddynt i sicrhau cylld tu hwnt i hynny ond nad oedd unrhyw warant.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at achosion o gam-driniaeth domestig ar gyfer y chwarter hwn a holodd os oeddent yr un problemau neu broblemau gwahanol i'r rhai a adroddwyd yn y chwarter diwethaf. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod rhai problemau yr un fath, fodd bynnag roedd yn anodd rhoi adroddiad gan fod rhai materion wedi gorgyffwrdd. Roedd mwyafrif yr achosion yn fewnol a chafodd llinellau amser eu cryfhau er enghraifft lle bu lladrad ac y byddai'r heddlu yn gysylltiedig, byddai hyn yn dod yn fater mewnol pe na fedrid canfod tystiolaeth.<br><br>Holodd Aelod os bu unrhyw erlyniadau. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod un unigolyn mewn risg o gael ei reoli a'i gyflwyno | |

| | | |
|---|---|---|
| | i'r heddlu. Os oes honiadau yn erbyn gofalwr, byddai angen i'r Asiantaeth atal y gofalwr hwnnw dros dro a chael un arall yn ei le.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y nifer uchel o anhysbys ar y tabl personau a honnir yn gyfrifol. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth fod hyn oherwydd na ddynodwyd unrhyw unigolyn penodol, er enghraifft gall cymydog fod wedi rhoi adroddiad fod defnyddiwr gwasanaeth wedi syrthio neu gall gofalwr fod yn bryderus am aelod o'r teulu yn cymryd arian. Byddai proses sgrinio i gasglu tystiolaeth a mapio a monitro'n effeithlon, ond efallai na chanfuwyd unrhyw dystiolaeth.<br><br>Cyfeiriodd Aelod arall at ffynonellau atgyfeiriadau. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth y gallai fod nifer o atgyfeiriadau o wahanol ffynonellau yn ymwneud â'r un unigolyn, byddai hyn yn cael ei gyfrif fel un atgyfeiriad er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef derbyn yr adroddiad fel y'i darparwyd ac argymell cymeradwyaeth yn y Pwyllgor Gweithredol. | |
| **No. 8** | **<u>SICRWYDD ANSAWDD DIOGELU MEWN GWASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Strategol Gwella Addysg a gyflwynwyd i gael barn Aelodau ar y protocol sicrwydd ansawdd diwygiedig ar gyfer trefniadau diogelu mewn Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Diogelu mewn Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Cododd Aelod bryderon am drosglwyddo disgyblion o un ysgol i un arall a throsglwyddiadau allan o'r sir a dywedodd ei bod yn ddyletswydd ar y cyngor i basio gwybodaeth trosglwyddo ymlaen a theimlai nad oedd ysgolion yn gweithredu'r Polisi Derbyn yn gywir h.y. cwblhau'r ffurflenni trosglwyddo yn llawn. Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg fod y Polisi Derbyn yn cael ei adnewyddu'n flynyddol ac yn cael ei gyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu i'w ystyried; fodd bynnag byddai'n gweithio i sicrhau y gweithredir y polisi'n fwy effeithlon. Cydnabu Aelodau y llwybr gweithredu hwn.<br>Cododd Aelod arall bryderon nad oedd gwybodaeth trosglwyddo yn cael ei rhoi i ysgolion. Dywedodd y gallai staff a disgyblion fod mewn risg o drais ac ymosodiad pe na rhoddir yr wybodaeth | |

| | | |
|---|---|---|
| | iddynt. Gofynnodd hefyd pa gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer staff ysgol y caiff honiadau eu gwneud yn eu herbyn. Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg y caiff grŵp gorchwyl a gorffen dan arweiniad y Prif Swyddog Masnachol ei drefnu i drafod trais ac ymosodiad yn erbyn staff a byddai staff mewn ysgoilion un un pwynt allweddol i gael ei drafod.<br><br>Dywedodd Aelod y dylid ystyried polisi os caiff rhiant ei wahardd o un ysgol yna dylent gael eu gwahardd o bob ysgol yn y fwrdeistref oherwydd materion diogelu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodolk ar yr uchod, i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod Aelodau wedi craffu ar y protocol diwygiedig ac wedi cyfrannu at yr asesiad parhaus o effeithlonrwydd. | |
| **No. 9** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>There were no declarations of interest or dispensations reported. | |